O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2221 (Cy. 248)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Tarrell, Aberhonddu i'r Ffin Sirol, Glangrwyne, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Awst 2012* |
| *Yn dod i rym* | *4 Medi 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Rhaglan - Llanymddyfri (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn(**2**).

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.**—(1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Tarrell, Aberhonddu i'r Ffin Sirol, Glangrwyne, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "darnau o'r gefnffordd" *("lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru

Sir Powys a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys, neu ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 4 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

(3) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

(4) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ar wahân i gerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 ar waith.

### Cymhwyso

**3.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod parhad y Gorchymyn hwn**

**4.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Awst 2012

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLEN

## Darnau o Gefnffordd yr A40 rhwng Cylchfan Tarrell, Aberhonddu a'r Ffin Sirol,

## ym Mhowys

(i) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn tua'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Cefnffordd yr A479 wrth Barc Glan Wysg i bwynt 780m i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4560 wrth Bantybeili, i'r de o Bwlch.

(ii) Y darn o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U0350 yn Llansanffraid, Tal-y-bont ar Wysg (Powys) i'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â'r B4558 wrth Gefn Brynich, Aberhonddu.